Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen

Foundation Phase National Training Pack

# Llawlyfr Modiwl 4

## Chwarae a Dysgu Gweithredol

*Diwygiwyd 2012*






chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow
cyfnod sylfaen 3–7 foundation phase

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cangen y Cyfnod Sylfaen a’r Cwricwlwm
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6075
e-bost: FoundationPhaseInfo@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2012
WG16664

# Modiwl 4: Chwarae a Dysgu Gweithredol

## Cyflwyniad

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer dysgu drwy brofiadau a'i ddarparu'n effeithiol. Mae'n delio â phwysigrwydd chwarae a dysgu Gweithredoll. Mae'r modiwl yn ystyried model gweithredu sy'n ceisio sicrhau cydbwysedd ar draws holl elfennau allweddol dysgu ac addysgu.

Er mwyn adlewyrchu amcanion y Cyfnod Sylfaen, sef hyrwyddo a darparu cymorth ar gyfer datblygiad cyfannol plant, mae'r modiwl yn cynnig proses weithredu sy'n canolbwyntio ar gwricwlwm priodol plentyn-ganolog. Mae'r modiwl yn canolbwyntio ar greu amgylchedd dysgu cyffrous, ysgogol a phwrpasol i blant, gan ddefnyddio'r holl le sydd ar gael dan do ac yn yr awyr agored.

Darperir yr hyfforddiant drwy gyfuniad o gyflwyniadau sleid a gweithgareddau grŵp/unigol ac mae wedi'i rannu'n dair brif sesiwn sy'n cynnwys:

- Model Dysgu ac Addysgu
- Rhoi'r Model ar Waith
- Cynllunio ar gyfer Dilyniant.

Mae'r llawlyfr hwn yn cynnwys yr holl 'daflenni' sydd eu hangen i gyflwyno'r hyfforddiant. Mae'r 'Canllaw i'r dilyniant sleidiau' canlynol yn rhoi manylion am wahanol elfennau'r hyfforddiant ac yn nodi ble y dylid defnyddio'r taflenni.

# Canllaw i'r dilyniant sleidiau


| | *Tudalen* | *Sleid* |
|---|---|---|
| Croeso, cyflwyniad a throsolwg | | 1 |
| **Sesiwn 1 Model Addysgu a Dysgu** | | 3–12 |
| Pwrpas y modiwl | | 4 |
| Sut mae plant yn dysgu? | | 5–6 |
| Adeiladu'r Model | | 7–12 |
| Darpariaeth Barhaus | | 8 |
| Cyfoethogi'r Ddarpariaeth | | 9 |
| Tasgau â Ffocws | | 10 |
| I Grynhoi | | 11 |
| Amser i Fyfyrio | | 12 |
| **Sesiwn 2 Rhoi'r Model ar Waith** | | 13 |
| Enghreifftiau o Ddarpariaeth Barhaus | | 14–18 |
| Ble rydym arni nawr? | | 19 |
| Datblygu'r Amgylchedd Dysgu | | 20–34 |
| Enghreifftiau o drefn ddyddiol y Cyfnod Sylfaen | | 35–40 |
| Darpariaeth Barhaus – arferion (Taflen 4a) | 3 | 41 |
| Awgrymiadau ar gyfer Darpariaeth Barhaus | | 42–43 |
| Rôl yr oedolyn o fewn y Ddarpariaeth Barhaus | | 44–45 |
| Stori Holly yn yr ardal ymchwilio gwyddonol | | 46–49 |
| Gorsedd y Brenin | | 50–58 |
| Myfyrio ar Ddysgu yn y Ddarpariaeth Barhaus | | 59–60 |
| Cyfoethogi'r Ddarpariaeth | | 61–77 |
| Stori Emma yn yr ardal dysgu mathemateg | | 64–65 |
| Cyfoethogi'r Ddarpariaeth yn y Cyfnod Cynnar | | 66–70 |
| Stori Rueben yn yr orsaf ysgrifennu | | 71–73 |
| Tasgau â Ffocws | | 78–80 |
| I Grynhoi | | 81–82 |
| **Sesiwn 3 Cynllunio ar gyfer Dilyniant** | | 83 |
| Cynllunio yn y tymor hir/canolig a'r tymor byr | | 84 |
| Cynllunio ar gyfer Dilyniant ar draws y Cyfnod Sylfaen | | 85–86 |
| Enghraifft o gynllunio yn y Cyfnod Cynnar | | 87 |
| Enghraifft o gynllunio yn y Cyfnod Hwyrach | | 88–90 |
| Cynllunio cyfannol | | 91–98 |
| Cwestiynau cyffredin (Taflen 4b) | 8 | |
| Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol | 10 | |
| Darllen pellach | 10 | |
| Cyfeirlyfrau posibl a rhestr lyfrau | 11 | |
| Tystysgrif y cwrs | 12 | |

# Amser Tacluso! (Neu sut i gael 61 o blant i dacluso!)

Rydyn ni'n gweithio o fewn Uned Cyfnod Cynnar fawr a phrysur iawn. Fis Medi eleni buon ni'n ffodus iawn i gael ysgol newydd sbon gyda llawer o ddodrefn ac adnoddau newydd hyfryd. Roedd y staff a'r plant yn gyffrous iawn.

Roedden ni'n gwybod bod rhaid i ni drefnu ein hystafell ddosbarth er mwyn i amser tacluso fod yn dasg roedd modd ei chyflawni. Gwnaethon ni hynny drwy roi codau lliw ar ein blychau adnoddau fel eu bod yn perthyn i ardal benodol. Er enghraifft, roedd holl adnoddau'r ardal ysgrifennu yn cael eu cadw mewn blychau glas ac adnoddau'r ardal ymchwilio mewn blychau melyn. Gwnaethon ni labelu'r holl gynwysyddion lliw hefyd a glynu ffotograff ar y silff i'r plant allu rhoi'r adnoddau yn ôl yn y lle iawn. Mae hyn yn helpu wrth addysgu sut i adnabod lliwiau, trefnu, cyfateb a dosbarthu gwrthrychau ond mae'n ysgogiad gweledol hefyd sy'n helpu'r plant (a'r oedolion) yn ystod amser tacluso.









Yn ystod yr wythnos gyntaf roedd y rhan fwyaf o'n plant ar y cam datblygiadol ac yn troi'r holl adnoddau allan o'r blychau i'r llawr a rhedeg i ffwrdd i ardal arall gan ailadrodd y broses dro ar ôl tro. Roedd rhaid i ni fod yn amyneddgar iawn yn ystod yr amser hwn ac atgoffa ein hunain bod hwn yn gam datblygu yng nghynnydd y plant. Roedden ni'n gwybod fel oedolion y byddai'n cymryd misoedd lawer i fodelu rôl ac addysgu sgiliau tacluso. Roedd hynny'n anodd i'w dderbyn weithiau yn enwedig pan fyddai ymwelwyr yn dod i'r ystafell ddosbarth ac roedd y lle'n edrych fel petai corwynt newydd fynd drwyddi.



Tynnwyd y llun yma yn ystod yr wythnos gyntaf mis Medi. Sylwch ar y silffoedd gwag yn yr ardal mathemateg. Mae'r adnoddau wedi cael eu troi allan ar hyd y llawr. Sylwch hefyd ar gotiau'r plant. Maen nhw'n dod i mewn i'r ysgol, yn tynnu eu cotiau a'u taflu nhw ar y silff neu eu gollwng nhw ar y llawr. Roedd hyn yn rhwystredig iawn i ddechrau ond drwy fynd i'r afael â'r broblem fel tîm cyfan a gweithio ochr yn ochr â'r plant a modelu'r sgiliau, roedd y plant yn dysgu sut i gadw'r ystafell ddosbarth yn daclus. Bydd ein pennaeth hyd yn oed yn dod i mewn yn ystod rhai sesiynau tacluso i helpu. Dyna beth yw bod yn fodel rôl da.

Treulion ni hanner tymor yr hydref yn modelu rôl gan ddangos i'r plant sut i fod yn dacluswyr da. Treulion ni trwy'r dydd bob dydd yn dweud yn uchel "Dwi wedi gorffen chwarae yn y Byd Bach nawr, felly fe wna i dacluso'r dinosoriaid cyn mynd i chwarae gyda Shannon yn y tywod" ac "Edrychwch ar y llyfr 'ma ar y llawr, fe wna i godi'r llyfr a'i roi e nôl ar y silff!". Aethon ni mor bell â dweud yn uchel ar ôl amser stori, "Nawr rydyn ni wedi gorffen ein stori ble mae'r llyfr 'ma'n byw? O, ie, mae'n byw ar y silff lyfrau!". Roedd yn waith caled ond ymhen ychydig fe ddechreuodd dalu ar ei ganfed. Gwnaethon ni roi pwyslais mawr ar gael plant hŷn y dosbarth Derbyn i fod yn fodelau rôl da i blant iau y dosbarth meithrin. Buddsoddi'r amser hwn oedd y peth gorau y gallen ni fod wedi'i wneud i'n plant a chafodd yr amser hwn ei drin fel addysgu Tasg â Ffocws oherwydd yr holl sgiliau personol a chymdeithasol, iaith a mathemategol roedden ni'n ffyddiog bod y plant yn eu datblygu yn ystod y cyfnod hwn.

Ymhen amser roedden ni wedi myfyrio ar y broses o siglo'r tambwrîn i nodi bod Amser Tacluso! yn dechrau. Sylweddolon ni ar gyfer rhai plant oedd wedi ymgolli'n llwyr yn eu chwarae gallai clywed bod rhaid iddyn nhw roi'r gorau iddi, gorffen a rhoi eu holl waith caled heibio fod yn dipyn o sioc. Felly cyflwynon ni amser 'tacluso bach' a 'thacluso mawr'. Penderfynon ni roi pum munud i'r plant, yna dwy funud, yna un funud a chyfrif i lawr i'r sesiynau tacluso hyn. Roeddwn i'n meddwl bod hwnnw'n syniad eithaf da nes i un o'r bechgyn yn y dosbarth Derbyn ddweud, "Pam ydych chi'n dweud yr holl rifau 'na?". Sylweddolais i drwyddo fe fod hyn yn eithaf haniaethol felly

fe wnaethon ni lawer o waith ar ddefnyddio amseryddion tywod mawr i addysgu'r cysyniad o dreigl amser yn ein sesiynau mathemateg. Hefyd roedden ni wedi cydnabod ar gyfer rhai plant bod eu chwarae wedi dod i ddiwedd naturiol cyn eu cyfoedion felly roedd 'tacluso bach' yn berffaith i'r plant yma. Yn ystod tacluso bach rydyn ni'n dweud wrth y plant os ydyn nhw wedi gorffen yna gallan nhw ddechrau tacluso bach. Fel arfer yn ystod yr amser hwn bydd y plant sy'n paentio yn dechrau gorffen eu gwaith, golchi eu brwshys, ysgrifennu eu henwau ar eu lluniau, ac ati. Mae tacluso bach yn amser dirwyn i ben a gorffen mewn gwirionedd. Mae'n rhoi cyfle i'r rhai sydd wedi ymgolli yn eu chwarae i barhau gan ddeall bod tacluso mawr yn agos iawn nawr. Ar ôl pum neu ddeg munud rydyn ni'n siglo'r tambwrîn eto, yn canu ein cân ac mae tacluso mawr yn dechrau.

I gychwyn, ar ôl i ni dacluso un ardal byddai rhai plant yn dod draw a'i gwneud yn anniben eto. Felly yn gyflym iawn fe wnaethon ni greu arwyddion 'Dim Mynediad' ac roedd y plant yn hoffi arddangos y rhain ar ôl iddyn nhw orffen tacluso ardal arbennig. Roedden nhw hefyd yn hoffi dweud wrth y plant eraill, "Dim mynediad, mae'n daclus nawr!". Roedd y dull hwn yn dda iawn hefyd ar gyfer datblygu sgiliau darllen arwyddion, symbolau a phrint yn yr amgylchedd. Ar ôl tua chwe wythnos sylweddolon ni nad oedd angen yr arwyddion hyn arnon ni mwyach oherwydd bod pob un o'r plant yn deall beth roedd rhaid iddyn nhw ei wneud yn ystod Amser Tacluso!

Yn ystod tacluso mawr mae nodyn gludiog gan bob aelod o staff i gofnodi pa blant sy'n tacluso. Mae hwn yn rhoi'r pwyslais ar atgyfnerthu cadarnhaol. Yna byddwn yn gwobrwyo'r plant yma drwy roi sticer yn eu siart sticeri. Mae'r plentyn sydd â'r nifer mwyaf o sticeri ar ddydd Iau yn ennill rhywbeth arbennig o'r blwch gwobrau.



Rydyn ni hefyd yn atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol gyda 'Llyfr Lola o dacluswyr da'. Rydyn ni'n tynnu lluniau o'r plant yn tacluso ac yn eu glynu yn y llyfr arbennig hwn. Yna rydyn ni'n dathlu'r llyfr hwn gyda rhieni a gofalwyr ac mae'n byw yn y gornel lyfrau i'r plant gael gafael arno. Mae'r plant yn hoffi edrych trwy'r llyfr a'r lluniau ohonyn nhw eu hunain gyda Lola. Rydyn ni'n defnyddio'r llyfr hwn yn ystod amser stori hefyd ac yn adrodd y stori. Er enghraifft, dywedwn, "Un tro roedd ysgol o'r enw



TAFLEN







TAFLEN

Rhosymedre. Yn yr ysgol honno roedd dosbarth o'r enw Ogwen ac Offa. Yn y dosbarth hwnnw roedd rhai plant oedd yn rhai da iawn am dacluso. Un tro roedd merch fach o'r enw Eryn oedd wedi tacluso'r gornel lyfrau. Roedd bachgen bach hefyd o'r enw Archie a merch fach o'r enw Tayah oedd yn dda iawn am frwsio'r tywod." Mae bod yn benodol iawn am yr ymddygiad rydyn ni'n ei ddisgwyl yn golygu bod y plant eraill i gyd yn gwybod beth yn union y mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud

Un diwrnod roedd Logan wedi adeiladu cwch gwych yn yr ardal chwarae blociau. Roedd y cwch mor dda doedd e ddim am ei dacluso a doeddwn ni ddim am ei roi heibio ychwaith. Cyfyng-gyngor yn wir felly penderfynon ni adael y cwch. Siaradon ni â'r glanhawyr a gofyn iddyn nhw beidio â glanhau'r rhan honno o'r ystafell ddosbarth y noson honno. Siaradon ni â'r plant hefyd ynghylch beth y gallen ni ei wneud i sicrhau bod pawb yn gwybod na ddylen nhw dacluso'r cwch yn ystod Amser Tacluso!










Aeth y plant ati'n syth i wneud llawer o ysgrifennu ymddangosol ar arwyddion, 'Peidiwch â chyffwrdd!', 'Cwch Logan' a 'Peidiwch â thacluso'. Roedd yn rhyfeddol gweld pa mor frwdfrydig ac awyddus oedd y plant i ysgrifennu am y pwrpas real iawn yma. Gadawon ni'r cwch fel yr oedd dros nos a rhedodd Logan i mewn i'r dosbarth y bore canlynol gan lusgo ei fam i mewn i weld ei gwch.

Erbyn hyn mae oedolion yn gweithio yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd yn yr ystafell ddosbarth gan annog y plant, pan fyddan nhw wedi gorffen chwarae gyda'u hadnoddau, i'w tacluso cyn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu chwarae.

# Cwestiynau cyffredin

Sut byddaf yn gwybod a yw pob plentyn wedi ymweld â phob ardal?

Os byddwch yn gweithio drwy'r taflenni cynllunio Darpariaeth Barhaus, fe welwch y gall y plant ddatblygu'r un sgiliau mewn llawer o'r ardaloedd. Felly byddan nhw'n dewis mynd i ardaloedd sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

A fydd y plant yn dal i ddysgu darllen ac ysgrifennu?

Wrth gwrs – dylai'r dysgu fod yn ei gyd-destun ac yn briodol i gam datblygiad y plant.

A fyddaf yn dal i addysgu dosbarth cyfan/grŵp bach?

Byddwch. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn pwysleisio'r angen am gydbwysedd rhwng gweithgareddau dan gyfarwyddyd athrawon a chwarae difyfyr. Bydd angen addysgu sgiliau/cysyniadau newydd i'r plant o hyd.

A fydd angen byrddau arnaf?

Efallai y bydd angen i chi ailedrych ar y lle sydd gennych a chael gwared ar rai byrddau er mwyn datblygu gwahanol ardaloedd, ond mae'n amlwg y bydd llawer o gyfleoedd pan fydd yn briodol i blant eistedd wrth fwrdd. Ond cofiwch roi cyfle i'r plant weithio ar wahanol lefelau – efallai y bydd rhai yn fwy cyffyrddus yn gweithio ar y llawr.

Nid oes gen i'r lle i greu'r holl ardaloedd hyn. Sut gallaf wneud hynny?

Gallwch sefydlu Darpariaeth Barhaus gan ddefnyddio blychau/basgedi ar silff neu fwrdd gweithio. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y plant yn cael mynd a dod yn rheolaidd ym mhob ardal a'r cyfle i wneud dewisiadau.

Pam na allaf newid yr adnoddau mewn rhai ardaloedd bob dydd?

Ni fyddai newid yr adnoddau bob dydd yn caniatáu i blant atgyfnerthu'r dysgu o un diwrnod i'r llall. Os oes angen iddyn nhw aros wythnos cyn i'r adnoddau ailymddangos, mae'n bosibl y byddan nhw wedi anghofio'u holl sgiliau/dysgu blaenorol ac y bydd angen iddyn nhw ddechrau eto. Bydd cael yr adnoddau allan fel rhan o'r Ddarpariaeth Barhaus hefyd yn lleihau'r 'rhuthr' neu'r cyffro lle mae pawb am fynd i ardal benodol ar yr un pryd. Os bydd y plant yn gwybod y bydd yno yfory, byddan nhw'n hapusach i aros. Yn ogystal, bydd hyn yn sicrhau bod y plant swilach hefyd yn cael cyfle.

A fydd y plant yn diflasu o gael yr un adnoddau allan bob dydd?

Bydd y plant yn diflasu os na fydd y Ddarpariaeth Barhaus yn cael ei chyfoethogi gydag adnoddau sy'n adlewyrchu thema/pwnc neu sydd o ddiddordeb penodol. Mae rôl yr oedolyn hefyd yn bwysig iawn wrth fodelu chwarae a chadw ardaloedd yn ffres ac yn gyffrous.

Mae arweinwyr pynciau ysgol am i mi addysgu drwy gynllun cyhoeddedig. Mae hwn yn rhagnodol iawn. Beth allaf ei wneud am hyn?

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn pwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio ar anghenion y plentyn a dechrau o ble mae'r plentyn arni – yn hytrach na ble mae'r cynllun yn dweud y dylai fod arni.

Sut byddaf yn ateb pobl sy'n meddwl bod y plant dim ond yn chwarae yn hytrach na dysgu?

Os ydych wedi cynllunio ar gyfer Darpariaeth Barhaus, byddwch wedi nodi'r sgiliau/cyfleoedd dysgu allweddol. Dylai hyn roi hyder i chi wybod yn union beth mae'r plant yn ei ddysgu yng nghyd-destun eu chwarae.

Nid yw fy mhlant yn rhai da am dacluso.

Mae cael oedolion i gymryd rhan yn y chwarae yn hanfodol er mwyn modelu beth i'w wneud mewn ardal benodol ac i hyrwyddo'r dysgu. Mae angen i'r plant wybod y 'rheolau' am sut i ddefnyddio a pharchu ardal. Mae cael oedolion i gymryd rhan yn hanfodol hefyd er mwyn cyfleu i'r plant eich bod yn rhoi gwerth ar eu chwarae.

## Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol

Pascal, C a Bertram, T, Effective Early Learning Project/Programme (EEL), Worcester College

Pascal, C a Bertram, T, Primary Effective Early Learning Project/Programme (PEEL), Worcester College

(Rhaglenni ar gyfer asesu cynnwys plant yn eu dysgu.)

Hobart, C a Frankel, J (1999) 2nd Edition: A Practical Guide to Child Observation and Assessment, Nelson Thornes ISBN: 0 7487 4500 9

Harding, J a Meldon-Smith, L (1996) How to make Observations and Assessments, Hodder and Stoughton ISBN: 0 340 64748 5

Hutchin, V (1996) Tracking Significant Achievement in the Early Years, Hodder and Stoughton

Laevers F (research started 1976) A Process-Oriented Child Monitoring System for Young Children (Experiential Education Series), Centre for Experiential Education, Belgium
Gwefan: www.universityofleuven

(Rhaglen ar gyfer asesu ac arsylwi lles plant a'u cynnwys.)

Early Excellence Centre for Inspirational Learning, The Old School, New Hey Road, Outlane, Huddersfield, HD3 3YJ Ffôn: 01422 311314 www.earlyexcellence.com

## Darllen pellach

Looking Closely at Learning and Teaching (Early Excellence) www.earlyexcellence.com

The Genius of Play (Sally Jenkinson – 2001)

Creating a Space to Grow – Gail Ryder-Richardson – ISBN 1843 12045. (These are simple ideas geared towards children in non-maintained settings.)

Learning Through Play – Tina Bruce – ISBN 0 340 80152 2

Boys and Girls come out to Play – Sally Featherstone/Ros Baily – ISBN 1 905 019 173

Observation and Assessments – Jackie Harding/Liz Meldon-Smith – ISBN 0 340 647 185

Documenting Children's Work (Wingate Community Nursery School, Partridge Terrace, Wingate, County Durham, TS28 5BD, Ffôn/Ffacs: 01429 838206 – Fideo)

Outdoor Banking (role of the adult) (Wingate Community Nursery)

All the cakes are different (Worcestershire County Council – llyfr a fideo – Sheila Sage, County Hall, PO BOX 73, Spetchley Road, Worcester, WR5 2YA

Starting from the Child – Julie Fisher – ISBN 0 335 209 181

# Cyfeirlyfrau posibl a rhestr lyfrau

## Cynllunio ar gyfer dysgu drwy brofiadau

### Erthyglau

Sally Featherstone: "Reflecting on Priorities for Children". (EYE vol. 8 no. 11 March 2007)

Margaret Sutherland: "Continuous Provision". (EYE vol. 8 no. 9 January 2007)

Pat Brunton and Linda Thornton: "Children follow the very paths we choose to tread". (EYE vol 7 No. 8 December 2005) (The Role of the Adult)

Sue Allingham: "Consider how your setting supports children's learning". (EYE vol. no 3 January 2005)

Helen Bilton: "Outdoor Play in the Early Years – Management and Innovation (1998) (David Fulton Publishers, ISBN 1 853 465 194)

### Llyfrau

Sally Featherstone and Ros Bayley: "Foundations for Independence: Developing Independent Learning in the Foundation Stage".
(Featherstone Education, ISBN 1 902233 57 3)

Liz Marsden and Jenny Woodbridge: "Looking Closely at Learning and Teacher ... a journey of development." (Early Excellence Ltd, ISBN 0 9551041 0 6)
www.earlyexcellence.com

LEARN: "A Place to Learn: Developing a stimulating learning environment". (Lewisham, ISBN 090 1637106) www.eys.advisers@lewisham.gov.uk

Hilary Harriman: "The Outdoor Classroom: A Place to Learn" (2006).
(Corner to Learn, ISBN 1 905464 07 3)

Neil Griffiths: "A Corner to Learn: Ideas for learning through play and home corners for ages three to nine" (Stanley Thornes, ISBN 0 7487 3087 7)

The "Little Book" Series, Featherstone Education – www.featherstone.uk.com

Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen

Foundation Phase National Training Pack

## Hyn sydd i dystio bod
## This is to certify that

.......................................................................................................................

wedi cwblhau/has completed

# Modiwl/Module 4

Chwarae a Dysgu Gweithredol fel rhan o
Becyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen

Play and Active Learning as part of the
Foundation Phase National Training Pack

*ar/on*

.................................................................................

chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow
cyfnod sylfaen 3–7 foundation phase

Llywodraeth Cymru
Welsh Government